# DINESYDD
## GORFFENNAF-AWST

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH
1983
RHIF 98

# BYRLYMU!

Rhag ofn fod amheuaeth ym meddwl neb, carai'r DINESYDD sicrhau pawb, Gymru benbaladr, fod y fro hon yn un bwrlwm amrywiol o weithgarwch Cymreig a Chymraeg. I brofi'r pwynt, rydym wedi cystadlu yng nghystadleuaeth 'Bwrlwm Bro' yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llangefni.

Casglwyd ynghyd adroddiadau gan bob cymdeithas, clwb a sefydliad o fewn Caerdydd a'r cyffiniau oedd mewn unrhyw fodd yn defnyddio'r Gymraeg yn eu gweithgareddau. Roedd y rhestr yn faith - o dai cwrdd i ddosbarthiadau cadw'n heini.

Shân Emlyn gymerodd y cyfrifoldeb am drefnu hyn i gyd a Nans Couch gyflawnodd y dasg enfawr o deipio'r holl gyfraniadau i greu llyfr a fydd ymhen amser yn ddogfen hanesyddol - gan ei fod yn croniclo yn bur fanwl sbectrwm eang bywyd Cymraeg y ddinas hon am flwyddyn gyfan.

Y beirniaid yw Ifor Owen o Lanuwchllyn a Norah Isaacs o Gaerfyrddin, a phrynhawn Sadwrn, Mehefin 18fed, daethant i'r ddinas i flasu ymhellach o fwrlwm y fro.

Gwahoddwyd cynrychiolwyr o wahanol agweddau ar fywyd yn y ddinas i arddwest yng Nghoed y Pry, cartref Shân Emlyn, ac o dan heulwen hyfryd y diwrnod cyntaf o haf go iawn a gawsom eleni cafwyd oriau difyr o gymdeithasu.



Shân Emlyn, trefnydd y gystadleuaeth, gyda'r beirniaid.

Diddanwyd y dorf gan Y Syndod, grŵp roc newydd a wnâi ei ymddangosiad cyhoeddus cyntaf. Disgyblion yn Ysgol Glantaf yw Gareth, Stephen, Siôn a Pete a deallwn fod enw'r Syndod eisioes wedi ei anfarwoli ar rai o furiau'r Ganolfan!



Y Syndod

Perfformiwyd dwy ddramodig hynod o ddifyr gan griw o ferched o Ysgol Glantaf. Roedd llawer o waith paratoi ar y ddwy. Ein diolch i'r merched ac i'r athrawes a ddaeth i fod yn gefn iddynt.

Daeth yr awen i gyfarch y beirniaid trwy enau T. Arfon Williams ac i gloi'r prynhawn cafwyd eitemau cerdd dant gan Barti Tannau Taf.

Gofalwyd am y lluniaeth gan Ferched y Wawr.

Mae diolch Y DINESYDD yn fawr i bawb a grybwyllwyd uchod ac i laweroedd eraill "rhy niferus i'w henwi" ys dywed yr hen ystrydeb. Carai'r Pwyllgor ddiolch yn arbennig i Shân Emlyn am drefnu'r holl fwrlwm ac i Owen Edwards a hithau am drylwyredd y trefniadau a chynhesrwydd y croeso.



Diau na fydd eu gardd (na'u cymdogion) yr un peth byth eto!

Dyfernir y wobr (£250) yn ystod yr Eisteddfod, ac erbyn i lawer ohonoch ddarllen hyn, bydd yn hysbys a enillisaom ai peidio. Yn y cyfamser, hoe haf i bawb ohonoch cyn dechrau ar fwrlwm gaeaf arall. Bydd Y DINESYDD yn ôl fel arfer, gwobr ai peidio, ym mis Medi.

# GOLYGYDDOL

Y Ceidwadwyr yn ailgipio Cyngor Dinas Caerdydd. Y Ceidwadwyr yn ennill yr Etholiad Cyffredinol gyda mwyafrif llethol. Bydd llawer ohonoch wedi pleidleisio trostynt ar y ddau achlysur, mae'n siwr, gan fod gafael y blaid hon ar y Gymru Gymraeg bellach yn gryfach nag ar unrhyw adeg. Y Ceidwadwyr enillodd yr etholiad ffug a gynhaliwyd yn Ysgol Uwchradd Glantaf - ffaith syfrdanol a ddylai roi taw am byth ar yr hen fwgan cyfeiliornus a honnai mai meithrinfa i genedlaetholwyr penboeth yw pob ysgol Gymraeg.

Un o weithrediadau cyntaf y Cyngor newydd yng Nghaerdydd oedd gwahardd CND rhag dosbarthu taflenni ar strydoedd y ddinas, ar y sail ei fod yn fudiad gwleidyddol. Mae'r ymgais yma i ddistewi gwahaniaeth barn yn ragflas o'r blynyddoedd anodd a pheryglus sydd o'n blaenau.

Clywsom lawer gan y Ceidwadwyr am roi hawliau yn ôl yn nwylo'r unigolyn, ond dylent gofio mai unigolion yw aelodau CND ac unigolion a etholwyd yn ddemocrataidd yw'r cynghorwyr hynny ar gynghorau lleol a fygythir â chosb am wario mwy na'r hyn ddywed llywodraeth ganolog.

Mae gwytnwch argyhoeddiad y Prif Weinidog yn y drefn gyfalafol i'w weld yn glir ochr yn ochr â'r argraff roes y Blaid Lafur yn ystod yr ymgyrch, sef o blaid nad oedd yn wirioneddol gredu ei philisiau ei hun. Ni raid inni edrych ymhellach na De Caerdydd. Nid peth newydd mo hyn i'r Blaid Lafur. Fe gofiwn i'r un pydredd ei bwyta ar fater datganoli. Medi ffrwyth yr hadau hynny o ddiffyg argyhoeddiad y mae hi nawr.

O ran ei chefnogaeth i'r diwylliant Cymraeg, ni ellir dweud fod y llywodraeth Geidwadol ddiwethaf wedi bod fawr gwell na gwaeth na'r un Lafur a'i rhagflaenodd. Nid oes yno fawr o gariad at yr iaith, ond nid oes yno ychwaith y cymhlethdod rhyfedd hwnnw sy'n arwain at atgasedd tuag at yr iaith mewn cymaint o ddilynwyr y Blaid Lafur.

I weithwyr Plaid Cymru, diflas ddigon fu'r canlyniadau yma yng Nghaerdydd. Dim cymaint â mil o gefnogwyr yn yr un o'r pedair etholaeth.

Mae gan y gwrthbleidiau o bob lliw bum mlynedd i ymrymuso. Ni allwn ond gobeithio y bydd etholiad cyffredinol arall yn bosib ymhen pum mlynedd. Mae agwedd a pholisi'r Fenyw Ddur yn peryglu democratiaeth, gwareiddiad a'r ddynoliaeth ei hun.

Mae hawliau pob dinesydd bach unigol yn llai. A'i gyfrifoldeb gymaint â hynny yn fwy.


**************************

Beth am wyliau yng nghadernid Gwynedd?

Tŷ gwyliau ym Mlaenau Ffestiniog.

Dwy lofft - lle i 5 i gysgu.

Telerau rhesymol.Os am fanylion pellach:

Ffoniwch 0222 566720

**************************


# Y GOLOFN GAIN

## gan ARFON



Llewelyn Morgan

Wrth agor y golofn y mis hwn 'rwy'n dal ar y cyfle i longyfarch plant a phobl ifanc y cylch ar eu llwyddiannau llenyddol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Aberafan. Gwnaeth rhai o ddisgyblion Melin Gruffydd, Glantaf a Llanhari yn arbennig o dda a gwelir eu gwaith yn britho tudalennau'r Gyfrol Gyfansoddiadau. Byddai'n dda gennym gael ambell gerdd ganddynt yn y golofn hon o dro i dro.

Ond mae gennym destun llongyfarch arall y mis hwn hefyd, oherwydd ar Fehefin y 15ed fe ddathlodd un o ffyddloniaid y golofn ei benblwydd yn 90 mlwydd oed. Rwy'n cyfeirio wrth gwrs at Llewelyn Morgan y cawsom weld englyn o'i eiddo ar y tudalennau hyn o bryd i'w gilydd. Brodor o Sir Gâr ydyw o'i eni ym Mhencaegarw, Gwynfe cynifer o flynyddoedd yn ôl, ond wedi ymddeol o waith fferm bu'n byw gyda'i ferch yn y Felin Fach, Yr Eglwysnewydd ers tua deng mlynedd. Roedd un o'i frodyr, Samuel Aneurin Morgan yn englyna hefyd a cheir englyn gan y naill a'r llall yn Awen Myrddin (Llyfrau'r Dryw 1959). Dyma englyn Llewelyn Morgan:

<u>ABER</u>

Genau rhaeadrau gwynion, a gryna
  Ac a rwyga'r eigion,
A'r môr dig, pan drymha'r don
Yn moelyd ei ymylon.

Henry Llewelyn Morgan.

Mae'n dal yn rhyfeddol o heini ei gorff a thirf ei feddwl ac nid yw'n ddim ganddo godi ac adrodd pennod oddi ar ei gof yn y Cwrdd Gweddi yn Ebeneser.

Wrth gwrs rhaid yn anad dim wrth englyn i'w gyfarch yn y golofn:

<u>I Llewelyn Morgan ar ei benblwydd</u>

Gwron na fu ei ragorach, - heddiw
  er cyrhaeddyd bellach
ei naw deg, nid yw'n llegach;
deil ati'n y Felin Fach.

Mehefin 15ed, 1983

Cofiwch anfon eich cerddi ataf. Y cyfeiriad yw Penmaen, 31, Heol Don, Yr Eglwysnewydd, Caerdydd.

## COLOFN
### Shân Emlyn

Flynyddoedd yn ôl dwi'n cofio gweld darllediad o Sioe Gŵn Grufts ag yn wfftio at yr holl Sioe, ac meddai nhad "rhaid iti gofio mai dyma Steddfod Genedlaethol y rhain". Daeth y geiriau yma i'm cof ddwywaith yn ddiweddar.

Mae gennym gymdogion hynod garedig a chymwynasgar ac fe gefais wahoddiad i fynd efo nhw i Sioe Flodau Chelsea. Freuddwydiais i 'rioed am gael mynd yno, derbyniais y gwahoddiad yn llawen nid o frwd-frydedd garddwrol ond oherwydd y byddai'r cwmni'n felys. Cofiwch chi, rwy'n credu bod fy nghymdogion yn eitha cyfrwys, dwi'n amau mai ymgais o'u rhan hwy oedd y gwahoddiad i f'ysbrydoli i lafurio'n galetach yn yr ardd yn y gobaith y cânt hwy well golygfa o'u ffenest llofft! Rhyw greadures sy'n hoffi gwneud pethau'n sydyn ydw i; cofiaf fynd efo ffrind i weld arddangosfa luniau, byddai deng munud wedi bod yn ddigon i mi, ond na roedd hi eisiau syllu am o leia ddeng munud ar bob llun. Rhywbeth yn debyg oedd hi yn y Sioe Flodau, cerdded a sefyllian wrth greadigaethau hynod hardd o chwarter i wyth y bore tan amser cinio. Erbyn hynny roedd fy nhraed yn sgaldiau ac roeddwn hefyd wedi dihysbyddu pob ansoddair sâl yn yr iaith fain - clywed fy hun dro ar ôl tro yn dweud "Isn't that nice!" Ond dyna ni "dyma Steddfod Genedlaethol y rhain".

A'r ail eisteddfod fel petae - cael treulio diwrnod yn Wimbledon. Diwrnod bendigedig, haul crasboeth, sedd ar y Centre Court a gwahoddiad i un o'r pebyll crand am bryd o fwyd moethus, y gwin yn llifo ac eistedd hyd braich oddi wrth John Newcombe - Whiw - "pe cawn fy hun yfory yn llances deunaw oed......"!!

Tydy rhywun yn od dwedwch. Roeddwn yn mwynhau pob eiliad o'r diwrnod ac eto'n cael rhyw deimlad bach euog fy mod yn mwynhau achlysur mor Seisnig - dim ond am eiliad cofiwch, ac fel Dada mi ddwedais wrthyf f'hun "rhaid iti gofio mai dyma Steddfod Genedlaethol y rhain"!

---

# YSGOL..

YSGOL BRO EIRWG

Dyna enw a ddaw yn gyfarwydd iawn yng nghylchoedd Cymraeg Caerdydd. Mae'n disodli enw arall a fu am flynyddoedd yn gyfystyr ag addysg Gymraeg yn y ddinas, sef Bryntaf. O fis Medi ymlaen gyda'r ysgol yn ymgartrefu yn ei hadeiladau newydd ar gyrion Llanrhymni, bydd yn newid ei henw i Ysgol Bro Eirwg.

# ...HAIG!

BEd (Anrhydedd 1af!)

Bu sôn am gewri Môn drwy'r byd
Rhai enwog am eu sŵn.
Un tawel nawr sydd yn eu plith.
Ei enw? Cen Cartŵn.

Fe ddaeth o Walchmai'r dyddiau gynt
I Gyncoed i gael sbri,
I ddysgu crefft yr athro celf
A charu am wn i.

Ar ôl ymlafnio fisoedd hir
Tystysgrif ddaeth i'w ran
Ac yntau aeth i rannu'i ddawn
Mewn ysgol yn y man.

Ond daeth rhyw chwiw i lenwi'i fron
Cyn henaint am wn i,
A phenderfynodd fynd yn ôl
I ennill ei ddigrî.

A chwarae teg i Cen Cartŵn,
Fe weithiodd yn ddi-stop.
Dyw pobol Môn ddim eisiau pas!
Rhaid mynd ar ras i'r top.

Nawr, cladder enw Cen Cartŵn!
Rwy i nawr ar ben y sied
Yn canu, "Wyt ti'n gwrando, Fôn?
Mae nawr yn Cen BEd."

Apêl i gloi, o Cen BEd.
Rwyt Gardi yn y bôn.
Nawr gwaria beth o'th gyfoeth mawr
Syth bin i brynu ffôn.

---

## ENILLWYR

## ABERAFAN

**Llongyfarchiadau i holl blant ysgolion Caerdydd a'r Cylch ar eu llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd Aberafan.**

---------

**Ysgol Melin Gruffydd:**

**Aled Williams; Emily Groves; Rhian Mair Davies; Siwan Davies; Non Evans; Lowri Gwyn; Medi Evans; Non Jones; Rebecca Evans; Non Gwilym; Huw Harries**

**Ysgol Bryntaf:**

**Eluned Myher**

**Ysgol Coed y Gof**
**Cywaith Llenyddol yr Adran**

**Ysgol Gymraeg Caerffili**

**Geraint Davies; Paula Griffiths; Nia Kilminster; Victoria Hutchings; Parti Dawns Werin; Parti Disco**

**Ysgol Gyfun Glantaf**

**Tracey Mathias; Parti Cydadrodd i Gyfeiliant; Lisa Williams, Ffion Jenkins; Angharad Rogers; Owain Rogers**

**Ysgol Gyfun Rhydfelen**

**Huw Aled Lewis; Nia Roberts; Karl Harrison; Parti Cerdd Dant; Parti Bechgyn dan 15 oed; Parti Can Actol.**

**Ysgol Gyfun Cwm Rhymni**

**Parti Bechgyn dan 15 oed.**

**Ysgol Gyfun Llanhari**

**Catrin Owen; Iona Collins; Karenza Owen; Delyth Morgan; Lisa Palfrey; Marc Roberts; Cor SATB; Grwp Pop; Parti Cyflwyniad Llafar; Cwmni Drama dros 15 oed**

'RHWNG GWYR PENTYRCH A'I GILYDD'

------

Roedd dydd Sadwrn, y 18fed o Fehefin, 1983 yn ddiwrnod prysur prysur yng ngeseiliau'r Garth. Hwn oedd penllanw misoedd lawer o ymarfer a pharatoi. Y mwyafrif yn y dirgel, a chyn iddi nosi byddid wedi darganfod pwy yn wir oedd y pencampwyr a phwy a oedd yn deilwng o arddel mantell freintiedig pentref y flwyddyn am 1983. Byddai pawb o'r trigolion llwyddiannus yn gallu cerdded gydag urddas i bob siop yn y cylch trwy gydol y flwyddyn ddilynol a hawlio sylw a breintiau o Fôn i Fynwy. Y hwy hefyd fyddai yn cynrychioli'r ardal yn y gemau rhyng-genedlaethol ar Ynys-yr-Ia yn ystod y gaeaf. (Rhaid eu cynnal yn ystod y gaeaf oherwydd fod hanner yr ynys wedi toddi yn yr haf ac ni fyddai digon o le i bawb arni bryd hynny!)

Fe dorrodd y wawr yn gynnar iawn y bora arbennig yma ac roedd dwndwr a chyffro yn rhedeg trwy pob tŷ a thwlc yn ddiwahan. Yn wir roedd y mwyafrif o'r pentrefwyr wedi codi cyn yr haul, bron yn wir y gellid dweud eu bod o gwmpas eu traed cyn i sêr y noson cynt gyrraedd eu safle aruchel yn yr wybren. Roedd pob cath a phob ci yn mewian a chyfarth am yn ail mewn brwdfrydedd anhygoel a hyd yn oed ambell i fyji a physgodyn aur yn gwneud pethau rhyfeddaf o fewn muriau'r cawell a'r bowlen wydr fadam Seraïdd y galwant yn gartref. Cyn chwech y bora roedd rhan o'r boblogaeth yn mynd heibio ffenestr y tŷ 'ma yn eu dillad rhedeg neu debyg yn rhoi yr awch olaf ar eu ffitrwydd - pawb yn ysu am roi o'u gorau dros eu pentref, ambell un yn fodlon marw drosto gallach dyngu.

Disgleiriai haul crasboeth hir-ddisgwyl-amdano Mehefin ar bengliniau a phenolau y detholedigion ar faes y gâd ar y pnawn arbennig hwn, a chynrychiolwyr y tri pentref, sef Pentyrch, Creigiau a Gwaelod y Garth yn cydgyfarfod am y tro cyntaf ers hydoedd. O ddyddiad cyhoeddi'r ornest hyd y diwrnod mawr nid oedd dim Cymraeg wedi bod rhwng y timau a'i gilydd. Roedd fflach yn llygaid pawb, fflach o bendantrwydd a hyder a sicrwydd mai hwy fyddai yn haeddu'r fuddugoliaeth. Edrychai ambell un yn slei dros ei ysgwydd rhag ofn fod gelyn yn closio i daflu llwch cosmig atynt a allai eu troi yn dedi bêrs neu'n wil-cwac-cwacs. Welwyd y ffasiwn olygfa ar faes ysgol Creigiau erioed o'r blaen. Golygfa i'w phrofi a'r tensiwn yn yr awyr yn tynu fel tannau telyn deir-res.

Am bedwar o'r gloch, y ffanffêr agoriadol o organ geg y dyfarnwr a dyna gychwyn ar y gornestu. A dyna le - roedd 'na weiddi a chlochdar a gwthio a chwffio a phledu a dyrnu a chicio a malu, a'r olygfa yn fwy tebyg i faes y gâd yn Waterloo nag i gyfarfod olaf Cymdeithas Gymraeg y tri pentref, sef Clwb y Dwrlyn am dymor 1982/83.

Roedd 'na rasio o bob math ar gyfer y plant, ras sgipio, ras beics, ras ferfa. Roedd 'na gystadleuthau golff, peldroed a sgitls ar eu cyfer hefyd a phawb yn gweiddi'n groch dros eu pentrefi. Ar gyfer yr oedolion, y merched a'r gŵyr, roedd 'na gystadleuthau peldroed, coits, golff, taflu'r ysgyb a'r prif ornest, y tynnu rhaf, ac yma y gwelid ôl yr holl ymarfer - merched cyhyrog Creigiau yn tynnu merched sidêt Pentyrch yn blith drafflith drwy'r llygad y dydd a'r dant y llew a phantomeim oedd gweld y criw yn gwneud eu dawns o fuddugoliaeth wedi'r ornest.

Wedi'r cystadlu ddod i ben, dechreuwyd ar y cyd-sgwrsio am y tro cyntaf ers y diwrnod olaf o Fawrth eleni, a mawr oedd y cymdeithasu coeliwch fi - ambell un yn teimlo fel yr hen Livingstone flynyddoedd maith yn ôl (y Dr nid Ken') wedi ei ddarganfod gan gymar hir golledig.

I gydfynd â'r sgwrsio, roedd 'na wledd o fwyd ar gael, y cwbl yn cael ei baratoi yn yr awyr agored, ac arogl hyfryd mwg a choed yn llosgi yn gymysg â'r 'hebs en provence' fel cyffur yn troi pob casineb yn gariad a phob llid a dicter yn gusan. Cafwyd llymaid o win a mymryn o'r brâg i wlychu'r gwddf, ac roedd pawb yn ffrindiau unwaith yn rhagor.

I gloi'r diwrnod anturus hwn, beth yn well 'na thwmpath dawns ac yno, a'r haul coch yn hongian fel pel snwcer anferth uwchben y boced cyn machludo y bu'r plant a'r oedolion yn troelli a phontio a churo dwylo a sgipio i gerddoriaeth bwrpasol y galwr ar y meic.

Criw blinedig a ymdeithiai tua'r gwahanol bentrefi yn y gwyll, y cwbl drosodd tan y tro nesaf - a'r buddugwyr - wel 'rhwng gwŷr Pentyrch a'i gilydd' mae hynny hefyd.

Rhodri Gwyn Jones.

HYSBYSEBWCH YN Y DINESYDD

Tynnu dŵr o'r dannedd : Y pen-olau yn flaenaf



## MUSICALITY LTD.

Fel y gŵyr rhai o'r cerdd-orion dawnus yn ein plith, mae siop newydd wedi agor yn 446, Cowbridge Road East, sef MUSICALITY. Siop gerddoriaeth yw hi, a'r nod yw cadw prisiau'n rhesymol a chynnig gwerth eich arian - mae llawer o'r prisiau yn rated â phrisiau Llundain. Mae'r siop yn cael ei pherchen a'i rhedeg gan Gymry Cymraeg sydd wedi cael addysg dda drwy gyfrwng y Gymraeg ym Mryntaf a Rhydfelen. Ceir yn y siop ddewis ardderchog o gitarau trydan ac acwstig, offer sain o bob math, allweddellau, drymiau, a manion megis tannau gitâr, effeithion a phedolau sain, ac ati.

Ceir gwasanaeth cwrtais ac ystyrlon bob amser, ac mae croeso i chi alw i mewn i drafod wrth brofi ychydig o'r offer gwych. Gari Prysor yw'r Cymro mwyn sy'n gweinyddu o du ôl i'r cownter, a Huw Jenkins yw'r pen busnes tu ôl i'r fenter gyffrous hon.

Dyma'r ail siop i Huw ei hagor - mae'r gyntaf tua dwy filltir lawr yr heol, yn Nhreganna (Canton). Y TRADE-IN CENTRE yw ei henw, a'i chyfeiriad yw 60, Cowbridge Rd. East. Ers blwyddyn bellach mae dientere sefydlog o Gymry Cymraeg yn mynychu'r siop yn gyson. Yn eu plith, mae Derec Brown a Derek Harries o'r Racaracwyr; Dewi Pws, Mici Plwm, Dafydd Pierce, Simon Fisher (Coleg), Gareth Roberts (Sêr), Twm Gwyn, a Iolo Jones y ffidlwr adnabyddus.

Pethau ail-law a werthir yn y siop, yn amrywio o gamerau ac offer ffotograffeg i hi-fi ac offer grŵp. Os am fargen, sgwrs ddifyr a phaned o de, tarwch draw, a chofiwch ddod a digon o arian!

Dafydd Saer.

# YR AGORIAD

## DWEUD BACH

gan Leigh Verrill-Rhys

Y drafferth fwyaf ymysg dysgwyr yw dod o hyd i rywun sy'n gallu siarad â nhw. Mewn gweirionedd, mae'r un drafferth yn wynebu Cymry Cymraeg. Oni bai eich bod chi'n byw mewn ardal Gymraeg neu'n adnabod grŵp o bobl, dydych chi ddim yn gwybod pwy sy'n siarad yr iaith.

Er enghraifft, roedd fy ngŵr a finnau'n arfer mynd i ddosbarth nos i ddawnsio fel Astaire a Rodgers! Nid tan y diwedd oedden ni'n gwybod bod dau arall yn y dosbarth yn siarad Cymraeg o gwbl gan ein bod ni'n gwneud popeth yno yn Saesneg. Cymro Cymraeg yw fy ngŵr, ond doedd e ddim yn adnabod y bobl 'ma, siŵr o fod achos nad oedden nhw'n dod o Sir Gaerfyrddin neu o Fangor!

Sawl gwaith yn y dref, rwyf wedi darganfod bod rhywun yn Gymro/aes, ond dim ond ar ôl i fu orffen y busnes gyda nhw. Roeddwn yn ymweld â'r Llyfrgell bob dydd un wythnos i wneud ymchwil. Y diwrnod olaf, wrth roi y llyfrau nôl, roeddwn i'n cael sgwrs â chyfaill ar yr un pryd ac yna roedd y llyfrgellyddes yn ymuno â ni yn y sgwrs. Fe droiais i ati hi yn synn: Cymraes oedd hi!

Fe ddigwyddodd yr un peth yn siop lyfrau Bowes & Bowes. Tan i fi ysgrifennu y cyfeiriad ar yr archeb yn Gymraeg, doeddwn i ddim yn sylweddoli fy mod i'n siarad yn Saesneg â Chymraes arall. Ac yn Boots, fe ysgrifennais fy siec yn Gymraeg ac fe ofynnodd y clerc i fi: "Do you always write your cheques in Welsh?" Atebais. Dywedodd y clerc: "Well, I can't read it. You'll have to wait". O'r cwt, daeth llais bach: "I can read it for you, I speak Welsh". Hen fenyw fach oedd hi - ond fe ges i haint: oedd fy siec wedi'i hysgrifennu'n iawn, tybed? Ond roeddwn i'n llwyddiannus y tro hwn ac fe ddywedais i diolch yn fawr wrth y fenyw. (Rwyf wedi darganfod hefyd bod ysgrifennu sieciau yn Gymraeg yn cadw llawer o Gymry o'r clwt - rhaid cael rhywun i'w darllen).

Nawr te, sut ydw i'n gallu dweud pwy sy'n gallu siarad Cymraeg â fi? Fe glywais am yr hen "C" aur ac arian ond dw' i ddim yn awgrymu dychwelyd i'r sustem hon; mae'n awgrymu perthyn i ddosbarth fel yn Lloegr. Does dim eisiau rhannu pobl yn y sefyllfa hon ond eu tynnu nhw at ei gilydd. Dyna'r pwynt. Felly, beth am yr "C" wedi'i wneud o unrhyw ddefnydd, sy'n dweud wrth bawb ein bod ni'n siarad yr un iaith?

Geirfa:

trafferth - trouble
arfer mynd - used to go
darganfod - to discover
cael haint - get a shock
clwt - rag (the Dole)
dychwelyd - to return




Y 'Trade-In-Centre'




Derec Brown yn agor y Siop 'Musicality' hefo Dafydd Sêr a Gari Prysor, y rheolwr.

# O'R SEDD GEFN

Byth ers llwyddiant CHARIOTS OF FIRE a GHANDI mae dyn yn tueddu i ddisgwyl y bydd pob ffilm Brydeinig yn gampwaith ysgubol. A chyda'r syniad yma yng nghefn fy meddwl, pa ddiwrnod, wrth imi fentro i lawr i'r Odeon ynghanol y ddinas i weld LOCAL HERO (Forsyth) roeddwn i'n llawn ddisgwyl olynydd haeddiannol i'r ddwy ffilm uchod. Ac yn rhannol oherwydd hynny ac oherwydd y ffilm hithau, bid siwr, mawr oedd fy siom wrth imi sylweddoli nad campwaith arall mo LOCAL HERO.

O ydy, mae hi'n ffilm ddigon teilwng ac mae ganddi ei huchelfannau ond go brin y gellid dweud ei bod yn ffilm arbennig.

Stori ddigon syml sy ynddi - rhyw Dafydd a Goliath o stori mae'n debyg. Heb ddatgelu gormod, felly, stori sy 'ma am Americanwr yn cael ei anfon dros y cwmni olew mae e'n gweithio iddo draw i bentre bach yng ngogledd yr Alban i geisio dwyn perswâd ar y trigolion lleol i werthu'r pentre'n gyfan i'r cwmni er mwyn iddynt ddatblygu'r ardal - a'r harbwr yn enwedig - at ddibenion cynhyrchu olew. Trwy'r ffilm cawn ddilyn hynt a helynt yr Americanwr di-nod braidd wrth iddo geisio taro bargen â hwn a dylanwadu ar y llall. A dyna ydy'r stori mewn gwirionedd gyda bywyd y pentre anghysbell a'r pentrefwyr a'u hiwmor yn cael eu gweu i mewn i'r ffilm.

Mae hi'n stori ara deg, ond does dim o'i le yn hynny. Os rhywbeth mae'n gweddu i fywyd y pentre. Ambell waith mae'r ffilm yn ddoniol iawn ac mae ambell gameo perffaith o ran digwyddiad neu gymeriad, ond mae'r rhain yn llawer rhy brin ac mae hynny'n drueni achos os yw'r ffilm yn ara deg yna mae angen rhywbeth arall i ddenu sylw'r gwyliwr.

Gwendid mwya'r ffilm yw ei bod hi'n rhy hir. Mae hi hefyd yn ffilm ddi-gyswllt braidd gydag is-gymeriadau'n llifo i mewn ac allan yn ddibwrpas. Mae rhai o'r is-gymeriadau'n cael eu cyflwyno fel petaent yn mynd i fod yn allweddol i'r brif stori ond ymhen ychydig maent yn chwythu eu plwc, ond eto yn cael aros yn y ffilm. Clywais un beirniad yn dweud taw dyma oedd gogoniant y ffilm - sef cyfres o fân ddigwyddiadau a mân gymeriadau ond nid yw'r safbwynt hwn yn fy argyhoeddi rywsut achos ni all ffilm ddibynnu ar gadwyn o ddigwyddiadau os nad yw'r dolenni'n cydio yn ei gilydd. Enghraifft perffaith o hyn oedd ail-ymddangosiad pennaeth y cwmni olew (Burt Lancaster) ar ddiwedd y ffilm. Roeddwn i'n methu'n lân â gweld pam. Ai oherwydd Burt Lancaster oedd yr actor? Dyna un ateb, mae'n debyg.

Ioan Kidd.

# Y CALENDR

**Medi:**

9 Noson Gaws a Gwin yng ngofal Ann a Ken Innes yn Ysgol Glantaf. Disco yng ngofal Hywel Gwynfryn. Yr elw at Ysbyty Harefield, 7.30 - 11.00 p.m.

**Gorffennaf:**

12 a 13 Cyngerdd Haf yn Ysgol Gyfun Rhydfelen am 7.30 p.m. Y rhan gyntaf yn cynnwys eitemau a ymddangosodd yn Eisteddfod yr Urdd eleni; yr ail ran - Drama Gerdd '<u>Ian</u>'.

16 Diwrnod Agored yng Nghanolfan Cwrt y Cadno. Rhedeg o Llyn Briane i Gwrt y Cadno. Gweithgareddau yn y prynhawn; Cymanfa Ganu am 4 o'r gloch yng Nghapel Cwrt y Cadno. Os am gymryd rhan yn y rhedeg o Lyn Briane, cysyllter â Mrs. Eirlys Pritchard Jones, Ysgol Gyfun Rhydfelen.

OALED DIWAN

CWRS CYMRU LLYDAW

18fed - 28fed o fis Gorffennaf, 1983.

Mae Llydawyr yn cael eu diddori mwy a mwy yn iaith a diwylliant Cymru ac mae Cymry yn ymddiddori yn iaith a diwylliant Llydaw.

Mae hi'n dda iawn i gael cysylltiadau rhwng y ddwy wlad er mwyn deall yn well personoliaeth ddiwyll-iannol a nod yr ymdrech yn y ddwy wlad a pham mae'r sefyllfa mor wahanol yng Nghymru ag ydyw yn Llydaw.

Am y rhesymau hyn mae OALED/AELWYD DIWAN yn grefnu cwrs sy'n agored i Gymry a Llydawyr sy'n ymddiddori yn iaith a diwylliant ein dwy wlad, o'r 18fed tan y 28fed o fis Gorffennaf.

Bydd gwersi Cymraeg a Llydaweg yn y bore, yn ôl safon y rhai sy'n cymryd rhan. Yn y prynhawn bydd ymweliadau, cerddiadau a chwaraeon.

Bob nos fe drefnir darlithoedd a thrafodaethau ar bynciau amrywiol sy'n gysylltiedig â bywyd modern y ddwy wlad.

Bydd y cwrs yn dechrau ar ddydd Llun, 18fed am 9 o'r gloch y bore ond byddwch chi'n cael eich derbyn o 6 o'r gloch nos Sul.

Pris y cwrs yw 1.000 Franc.

Os oes diddordeb gennych gymryd rhan yn y cwrs, anfonwch at:

OALED DIWAN - 29214
TREGLONOU, LLYDAW.
Ffôn: (98) 04.05.42.

# HEI LWC!

# £5

Cofiwch bod gwobr o £5 am ateb y Croesair yn gywir. Gweler tudalen gefn.

YMWELIAD COR POLIFFONIG
CAERDYDD A CZECHOSLOVAKIA
MIS MAI 1983

---

Ymweliad cyfnewid oedd hwn rhwng y Côr Poliffonig a Chôr Pedagogica, sef Adran Hyfforddi Athrawon ym Mhrifysgol Siarl ym Mhrâg, un o'r prifysgolion hynaf yn Ewrop, gyda llaw. Yn un o hosteli'r myfyrwyr yr oedd aelodau'r côr yn aros, a rhaid cyfaddef mai cryn sioc oedd gweld mor elfennol a dweud y lleiaf oedd eu amodau byw.

Roeddwn wedi clywed droeon mai Prâg yw un o'r dinasoedd harddaf yn Ewrop, yn cymharu â Vienna o ran adeiladau a lleoliad. A hawdd oedd gweld y berthynas rhwng y ddau le yn y gorffennol, ond gydag un gwahaniaeth mawr erbyn heddiw, sef bod y ddinas Gomiwnyddol yn brin iawn o ofal a pharch. Mae'n hen ddywediad mai sgaffaldiau yw'r pethau a welwch chi fwyaf ym Mhrâg, ond nad er mwyn gweithio ar yr adeiladau y maen nhw yno, ond i'w cadw i fyny.

O oedd, roedd yno fannau hardd, wedi'u cadw'n dda, y mannau y byddai ymwelwyr pwysig yn debygol o fynd iddynt - y Palas Diwylliant modern, gwych, rhannau o ganol yr hen dref a Chastell Prâg. Ond caech y teimlad yn gyson wrth gerdded drwy'r ddinas fod ysbryd y bobl wedi'i dorri, eu bod yn mynd o gwmpas eu pethau yn hollol ddi-bwrpas. Does yno fawr o ddiweithdra, ond ymddangosai llawer o'r hyn a wneid yn hollol ddibwynt.

Ond i droi at ddiben yr ymweliad. Ym mis Mai y cynhelir Gŵyl Wanwyn Prâg - gŵyl gerddorol sy'n enwog ledled Ewrop. Dechreuir bob amser gyda pherfformiad o "Bartered Bride" Smetana a gorffen gyda Phumed Symffoni Beethoven. Bydd rhaid cael llawer "cyngerdd claf" bob blwyddyn er mwyn

Treuliwyd diwrnod arall yn teithio ychydig i'r de o ddinas Prâg i gastell enwog a elwir Konopiste. Taith fendigedig drwy wlad fendigedig ffrwythlon (yn tyfu dim ond erwau o ŷd i'w anfon i Rwsia, mae'n debyg) ac ychydig iawn o anifeiliaid i'w gweld yn unman. Castell Gothig yw Konopiste a chartref y Tywysog Franz Ferdinand cyn iddo gael ei saethu gan achosi dechrau'r rhyfel byd cyntaf. Roedd y Tywysog ei hun yn dipyn o saethwr hefyd gan fod y castell yn llawn anifeiliaid ac adar wedi'u saethu gan y Tywysog a'i ffrindiau. Ond rhaid cofio fod hela'n bwysig iawn yn y wlad yn gyfan.

A dweud y gwir, wrth deithio y tu allan i'r trefi mawrion y câi dyn ymdeimlo'n iawn â naws y wlad, gan anghofio'r rhesi hir wrth y siopau yn gobeithio cael cyfran o'r llwyth ffrwythau prin a oedd newydd gyrraedd, y mynd a'r dod di-bwys yn torri twll yn y ffordd fan hyn ac yn llanw twll arall fan draw, a'r heidiau di-ri o fechgyn ifanc mewn gwisg filwrol. Mae cadwraeth natur wedi bod yn bwysig yn Czechoslovakia ers blynyddoedd mawr, a hawdd y gellir gweld pam. Mae'n wlad hardd, goediog, fynyddig, ei phlanhigion yn ddiddorol a naturiol a'i hanifeiliaid gwylltion yn lluosog er gwaethaf yr hela.

Byddwn, fe fyddwn yn hoffi mynd yn ôl a chael gweld llawer iawn mwy o'r wlad a llai o'r trefi, ond hefyd i weld y ffrindiau annwyl a gyfarfum yno. Ond fe fydd y côr yn dod i Brydain tua chanol mis Gorffennaf ac yn dod i'n gweld yng Nghaerdydd am wythnos ar ôl bod yn Llangollen. Fe fydd yn rhoi cyngerdd yn Eglwys Dewi Sant nos Sadwrn, 16 Gorffennaf

i bawb gael cyfle i fynd. A dweud y gwir, roedd hi'n ymddangos mai sôn am Smetana a Dvorak - y ddau gyfansoddwr enwocaf i ddod o Czechoslovakia - oedd yr unig beth a daniai unrhyw fath o falchder yn y bobl.

Nid i ganu yn yr Wyl Gerddorol ei hun y gwahoddwyd y côr i Brâg, ond ystyrid y cyngerdd ar y nos Sul cyntaf mewn eglwys a oedd, rywsut, yn perthyn i'r Brifysgol, fel rhyw fath o gyngerdd "ymylol". Ac roedd y gynulleidfa'n frwd iawn, yn synnu, braidd, at safon y canu, ac maen nhw'n gryn arbenigwyr, fel y gallem farnu ar ôl clywed Côr Pedagogica ei hun yn canu'n anffurfiol i'n diddori ni. Fe ddylai wneud yn dda iawn yn Eisteddfod Llangollen.

I fynd i'r ail gyngerdd, roedd yn rhaid dal y bws am chwech o'r gloch y bore a theithio am deirawr i orllewin y wlad. Wedyn allan o'r bws, newid y wisg a chanu o dan fath o verandah gwych yng nghanol pobl a ddoi i'r dre i "gymryd y dyfroedd". Mae dŵr iachusol yn fater a gymerir o ddifrif yn Bohemia, ac un o'r trefi pwysicaf ers canrifoedd yw Karlovy Vary, neu Karlsbad fel yr adwaenid hi tan y rhyfel ddiwethaf. Yma doi enwogion a phobl bwysig Ewrop gyfan, yr un fath ag y byddai enwogion Cymru yn tyrru i Landrindod slawer dydd. Roedd hwn yn fyd hollol wahanol - siopau gwych yn llawn gwydrau crisial a llestri tseini cain. "Tref mewn môr o wyrdd" yw disgrifiad pobl Czechoslovakia ohoni.

Oddi yno i dref debyg arall, Marianske Layne, neu Marienbad gynt. Wel, sôn am foethusrwydd. Yma cynhelir gwyliau ffilmiau pwysig bob blwyddyn, ac roedd y baddonau cyhoeddus i fyny ar ymyl y bryn yn un o'r rhai mwyaf moethus a gwych a welais i erioed.

am 7.30 p.m. Gallwch gael tocynnau, pris £1.50, oddi wrth Howard Goodfellow, 148 Westbourne Road, Penarth (rhif teleffon 707827), neu oddi wrth unrhyw un o aelodau Côr Poliffonig Caerdydd, neu wrth y drws cyn y cyngerdd. Fe fydd yn werth i chi ddod, i glywed canu corawl disgybledig ar ei orau, a gweld drosoch eich hun nad yw 1968 wedi rhoi taw ar eu canu, hyd yn oed os yw wedi tawelu eu hysbryd.

---

Carai'r Dinesydd ddiolch i Gymdeithas Celfyddydau Deddwyrain Cymru ac i'r Swyddfa Gymreig am eu cefnogaeth ariannol at gostau'r Dinesydd.

---

Dylid anfon holl ddeunydd ar gyfer rhifyn Medi at Mrs. N. Couch, 2 Crystal Glen, Y Mynydd Bychan, Caerdydd (753625) erbyn Awst 20fed.

## LLONGYFARCH

Llongyfarchion i W.C. Elvet Thomas ar ei ethol yn Gymrawd er anrhydedd o Goleg y Brifysgol, Caerdydd.

-----

Ar Fehefin y 9fed, dathlodd Mr. a Mrs. R.T. Davies o'r Eglwysnewydd 75 blwyddyn o fywyd priodasol. Clywsom am briodas aur a diamwnt, ond a oes enw am 75 o flynyddoedd? Mae Mr. a Mrs. Davies yn aelodau yn Heol y Crwys ac yn wir Mr. Davies yw'r blaenor hynaf yno. Mi fu'n flaenor yng nghapel Pembroke Terrace. Brodor o Abercanaid ydyw'n wreiddiol ond fod ei wreiddiau yn Llanrhaeadr ym Mochnant a Mrs. Davies yn hannu o Abercraf. Mae ganddynt un mab yn feddyg yng Nghanada ac un arall yn feddyg yn Y Fenni. Mae eu merch yn byw drws nesaf ac yn fawr ei gofal amdanynt. Yn y byd yswiriant yr oedd Mr. Davies yn gweithio ac heddiw mae e'n dal yn weithgar ac yn mwynhau'r tŷ gwydr yn arbennig. Llongyfarchiadau cynnes iawn i Mr. a Mrs. R.T. Davies.

Llongyfarchiadau i Helen Davies, merch y Doctor Denzil a Beti Wyn Davies o'r Barri ar lwyddo yn ei arholiadau meddygol yn Ysbyty'r Royal Free yn Llundain. Merch yn dilyn ôl traed ei thad, a'i brawd hefyd yn astudio i fod yn feddyg. Does dim eisiau i neb boeni am ei iechyd yn y Barri mwyach!

Dau frawd fu'n dathlu'n ddiweddar oedd Gareth a Meirion Llywelyn. Mae'r ddau yn feddygon o Landyrnog ger Dinbych yn wreiddiol ond wedi ymsefydlu yng Nghaerdydd. Mae Gareth yn feddyg yn Ysbyty Frenhinol Caerdydd a newydd briodi â Bethan, nyrs o ardal Wrecsam yn wreiddiol. Mae'r ddau wedi ymgartrefu ym Mryn Derwen yn Radyr. Myfyriwr yn y Coleg Meddygol yw Meirion ond mae e newydd dderbyn gradd PhD gyda chanmoliaeth uchel iawn am ei waith ymchwil ar boen.

Mae'n dda gwybod bod Mr. Eirwyn Evans nôl wrth ei waith nawr ar ôl wythnosau o dostrwydd. Fe yw Pennaeth Adran y Gymraeg yn Ysgol Fitzalan.

Llongyfarchiadau i'r Dr. Eurig Davies, Llandaf, ar gael ei benodi i swydd yn Adran Feddygol y Swyddfa Gymreig.

Llongyfarchiadau i Alan a Gaynor Williams, Penylan ar enedigaeth merch fach, chwaer i Matthew a Rhodri Siôn, a disgybl bach arall i Ysgol Feithrin Y Waun. Dymuniadau gorau iddynt.

Llongyfarchiadau i David a Beryl Jones, Carrisbrooke Way, ar enedigaeth merch fach, Hanna Carys, ar y 4ydd o Fehefin; chwaer i Dafydd Huw a Rebecca Mari. Mae Hanna yn dal yn Ysbyty'r Mynydd Bychan, ond gobeithir y bydd yn dod adref ymhen y mis. Dymuniadau gorau i'r teulu oll.

Bydd Eluned Morgan, merch y Parch a Mrs. Bob Morgan, Trelai, yn mynd i Goleg Iwerydd San Dinawd ym mis Medi. Mae'n ddisgybl yn Ysgol Gyfun Glantaf ar hyn o bryd. Dymuniadau gorau iddi.

Llongyfarchiadau i Aled Roberts a Mandy Richards ar eu priodas ar Fehefin yr 11eg yn Eglwys Ebeneser, Heol Siarl. Mae Aled yn fab i Glan a Bethan Roberts o Radyr ac yn gweithio yn Adran Chwaraeon y BBC. O Gyncoed y daw Mandy er bod ei theulu wedi symud i'r Fenni erbyn hyn ac mae hithau hefyd yn gweithio yn y BBC gyda Radio Wales ac wrthi'n dysgu Cymraeg. Mae'r ddau wedi ymgartrefu yn Heol y Crwys.

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Huw Hall Williams ar ei briodas â Leonie Robinson. Bydd Huw yn dechrau ar ei swydd fel athro yn Lerpwl fis Medi.

## CYFARCHION

Un o aelodau Ebeneser sy'n dathlu ei naw deg oed cyn bo hir yw Mr. Arthur Davies o Jellicoe Gardens. Ef yw diacon hynaf Ebeneser ac arferai fod yn athro Mathemateg yn Ysgol Dyffryn Aman. Penblwydd hapus a hir oes iddo.

Penblwydd hapus i John Parry Jones, Huw Eurig a Huw Pritchard fydd yn 18 oed yn ystod gwyliau'r haf. Llawer o gariad.

Merched 6ed Dosbarth
Ysgol Llanhari.

## FFARWELIO

Cynhaliwyd Cymanfa Ganu i ffarwelio â Mr. a Mrs. Gwilym Humphreys a'r teulu yng Nghapel y Bedyddwyr, Llysfaen, ar brynhawn Sul y 4ydd o Orffennaf. Gwilym Humphreys, yn ôl ei ddymuniad, oedd yn arwain ac yntau hefyd a ddewisodd yr emynau. I Gronfa Capel Nant Gwytheyrn yr aeth yr elw.

## CYDYMDEIMLAD

Trist yw gorfod cyhoeddi y bu farw'r Parch D.T. Evans, Gweindiog Eglwys yr Annibynwyr, Minny St. Cydymdeimlwn yn fawr iawn â'i briod a'r plant yn eu profedigaeth.

Bydd teyrnged lawn iddo yn ein rhifyn nesaf.

Ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs. Gwen Davies, St. Asaph Close ar golli ei thad yng Nghwmann, ac i Nia, Dion a Steffan Hedd ar golli eu tad-cu.

Cydymdeimlir yn ddwys â Mrs. Gwenda Morgan, Rhiwbeina ar golli ei mam yn ddiweddar, ac i Eleri ar golli ei mam-gu.


Hoffai Mrs. Janet Parry Jones ddiolch i'w chyfeillion am eu caredigrwydd a'u cefnogaeth iddi ar achlysur marwolaeth ei mam.

# CLWB IFOR BACH - AR AGOR O'R DIWEDD!

Roedd Gorffennaf y Cyntaf yn ddyddiad pwysig i fywyd Cymraeg y ddinas. Agorodd Clwb Ifor Bach ei ddrysau am y tro cyntaf. Bydd nifer o atyniadau adloniadol yno yn ystod yr haf, gan gynnwys Cabaret mawreddog nos Wener, 22 Gorffennaf. Cewch y manylion i gyd o'r clwb ei hun.

O fis Medi ymlaen bydd noson neilltuol o'r wythnos ar gyfer gwahanol ddiddordebau. Daw'r manylion yn hysbys yn y man. Mae croeso i unrhyw gymdeithas/clwb ac ati i ymholi am y cyfleusterau sydd ar gael iddynt.

Agorir y lle yn swyddogol ym mis Medi. Ond mae ar agor NAWR. Llongyfarchiadau i aelodau'r pwyllgor a weithiodd yn galed dros nifer fawr o flynyddoedd.



Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

LYNN JONES

30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB

Buddsoddiadau Yswiriant Bywyd Pensiynau

Ar ddiwedd Gorffennaf bydd tri o Gaerdydd, sef y Parch Cynwil Williams, y Parch Meurwyn Williams o'r BBC a Mrs. Nora Morgan, gwraig y Dr. John Morgan, Llywydd yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig, yn hedfan i Vancouver lle cynhelir Cynhadledd Eglwysi'r Byd. Edrychwn ymlaen at glywed yr hanes pan ddychwelant.

## S4C

Daeth S4C i'n sgrin fin nos
Am chwech o'r gloch yn union;
A dyna hwyl oedd gweld y sgrin
Yn llawn o fywiog ddynion.

Pawb wrth ei fodd yn siarad Cymraeg
A Sianel i Gymru gyfan;
Nhw'i gyd ar un ochr, fy arwyr oll,
Hywel, Emyr, Robin a'r hen Gari Tryfan.

Ac yna gwelsom Mabon annwyl
Arwydd ein Ysgolion Meithrin,
Daeth Rowena a Sian i'n cyfarch ni
Ac ni theimlais fel dieithryn.

A dyma'r noson gyntaf wedi dod i ben
Ni wyddaf p'run oedd y gorau;
Ai Superted neu pêl Max Boyce
Ond fe wiliais trwy'r holl oriau.

Meleri Maelor Evans.
(10 oed)

## HELFA DRYSOR


Cynhaliwyd Helfa Drysor gan Gymdeithas Gymraeg Radur a Llandaf nos Wener drannoeth yr Etholiad Cyffredinol. Er gwaethaf diffyg cwsg y noson gynt daeth nifer dda ynghyd i ddilyn cwrs diddorol iawn a drefnwyd gan John Watkin a'i ffrindiau. Yn y car buddugol roedd Gwyn Cadnant Jones a Bryan Jones a'u gwragedd.

-----

CANOLFAN YR URDD
HEOL CONWY
TREGANNA
CAERDYDD

TAFLEN

LLYFRAU
RECORDIAU
CASETIAU
CARDIAU




Ar Agor
10.00 – 7.00 (5.00 Sad)
Ffoniwch Eich Archeb
CAERDYDD 27530

EGLWYS HEOL Y CRWYS - DERBYN Y DEUDDEG

Ar ôl bron blwyddyn o hyfforddiant, derbyniwyd deuddeg o fechgyn a merched Heol y Crwys yn aelodau cyflawn gan eu Gweinidog, nos Sul, 3ydd Mehefin. Eleni, roedd arwyddocad arbennig - deuddeg! Cyhoeddwyd eu henwau gan Mr. Gwilym Rees, Ysgrifennydd yr Eglwys, a rhoddwyd y Testament Newydd (yr un gwyrdd mawr) i bob un ohonynt. Dyma'r enwau:

Craig Halford, Ceri Anne Innes, Ffion Llewelyn Jenkins, Menna Jones, Gareth Wyn Jones, Siôn Tomos Jobbins, Siôn Pierce Lewis, Ann Elenid Owen, Shon Phillips, Heledd Melangell Stephens, Bethan Vaughan Williams, Lisa G. Williams.

Lluniwyd y Gwasanaeth yng Nghanolfan Ysgol Rhydfelen yng Nghwrtycadno; hen ysgol y Parchedig Cynwil Williams. Daeth Gareth a Rosalind Williams, a'u meibion, Geraint ag Aled, i gyfarfod â'r Dosbarth a'r Gweinidog am dridiau, a gofalu amdanynt. Treuliwyd un diwrnod cyfan yn teithio'r fro, a cherddwyd rhyw saith milltir i olwg Nant-yrast; un o'r ffermydd mwyaf anghysbell yng Nghymru. Croeswyd yr afon Cothi uwchben Bwlchyrhiw, a Shon Phillips yn taflu ei wellingtons droeon ar draws yr afon i eraill groesi ar ei ôl. Dychwelwyd heibio Pwll Uffern, pwll diwaelod yn yr afon. Uwchben hwn y cyfansoddodd Pantycelyn: "Cul yw'r llwybr i mi gerdded, Is fy llaw mae dyfnder mawr" a "Ffordd newydd wnaed gan Iesu Grist I basio heibio uffern drist Cafwyd lot o drafod ar y ffordd, fel ar lwybrau Galilea Gynt.

Manteisiodd y Gweinidog ar y cyfle i godi mater ein ffynonellau ysbrydol, a thrafodwyd pethau sy'n ein gwneud yr hyn ydym. Canolbwyntiwyd ar Bro Beirdd (yn cynnwys yr Emynwyr) a'r Beibl. Lluniwyd y Gwasanaeth i atgoffa pawb oedd yn yr oedfa o'r awelon a'r gwyntoedd a'u ffurfiodd. Byddai'n dda i bawb o ddarllenwyr Y Dinesydd, y Cymry Cymraeg sy'n byw yng Nghaerdydd. roi ystyriaeth yn amlach i'w gwreiddiau, a'r dylanwadau a fu'n eu bywydau. Onide, fe gwyd o'n hysgolion fwy a mwy fydd yn rhugl yn yr iaith, ond yn amddifad o lain neu stribed o dir i godi a glanio arno. Dyma oedd cenadwri'r daith i'r rhai a aeth i "Edrych dros y bryniau pell" a darganfod mewn bro dawel bod cartref ysbrydol a'r ffynhonnau bywiol, a'r awelon hyfryd.

Diddorol oedd gwrando barn gadarn y rhai ieuainc a fagwyd yng Nghaerdydd. Yr oedd ganddynt hwythau eu ffynonellau a'u cynefin, ei stribed o dir i godi a glanio. A dyma bwysigrwydd yr eglwysi Cymraeg iddynt.

Yr oedd yn amlwg bod y bobl ieuainc a dderbyniwyd wedi cymeryd y thema o ddifrif. Ar lafar, ar gân a gyda offerynau cerdd, rhoddwyd mynegiant i'w profiad ganddynt; yn ddidwyll ac effeithiol. Ac mae mynegi profiad, os yw'r mynegiant yn glir, yn fwy buddiol ac adeiladol na pharoteiddio credoau uniongred. Cyfansoddwyd tôn ar gyfer yr achlysur, a dysgwyd geiriau, hen a newydd.

Ac ar ôl y misoedd o baratoi, fel pob aelod eglwysig arall, gwnaeth y rhain eu llw o deyrngarwch. A da oedd y munudau dwys o addunedu, i godi cywilydd, ac i ddwyn ar gof y ffynonellau.

EBENESER : CYMDEITHAS Y GWRAGEDD

----------

Y mae dwy gymdeithas gan ferched Ebeneser - un a gynhelir ar brynhawn Iau a'r llall ar nos Fawrth. Yr olaf o'r ddwy sydd dan sylw yma.

Cyfarfyddwn am 7.30 bob nos Fawrth a'r swyddogion am y flwyddyn nesaf (1983-1984) fydd: Mrs. Carolyn Tudur (Llywydd), Miss Lynda Jones (Is-Lywydd); Megan Williams (Trysorydd); Beti Wyn Davies a Megan Williams (Ysgrifenyddion ar y cyd) a Mair Elvet Thomas (Gohebydd y Wasg). Yr ydym fel Cymdeithas wedi cyfarfod i drefnu rhaglen ddiddorol dros ben ac estynnw groeso cynnes i wragedd o bob oed i ymuno â ni bob nos Fawrth yn Ebeneser.

CAPEL DERWEN DEG

Saif ar dir uchel ynghanol y caeau uwchben Caerdydd - capel y wlad, gydag awyrgylch y wlad o'i amgylch ac oddi mewn. Codwyd y capel gan y Bedyddwyr yn 1782; fe'i adnewyddwyd tua 1840; ac o drugaredd, ni newidiodd neb fawr ddim arno ers hynny. Mae'r cerrig beddi yn y fynwent oddiamgylch, ynghyd â'r englynion arnynt, yn dystion o Gymreictod yr ardal tan yn weddol ddiweddar.

Bob ail Sul o'r mis (ag eithrio mis Awst) daw Cymry Cymraeg o Lysfaen a'r ardaloedd cyfagos i oedfa anenwadol am bedwar o'r gloch y p'nawn, ac i fwynhau paned o de a theisen wedi'r oedfa. Mae'r awyrgylch yn gynnes a di-ffwdan. Er nad ymhell o'r dre - rhyw ¾ milltir ar y ffordd i Rhydri - gallech feddwl nad oes 'na dinas na'i stŵr na'i bwrlwm o fewn can milltir.

Diolch i Fedyddwyr cyfoes Llysfaen am eu parodrwydd caredig i weld hen iaith wreiddiol yr achos yn dychwelyd i'r lle.

GORYMDAITH GWEINIDOGION YR EFENGYL.

-------

Ganol dydd, dydd Mercher, Mehefin 18, ymgasglodd nifer helaeth o weinidogion o bob enwad yng nghapel Ebeneser, Heol Siarl, i gynnal gwasanaeth heddwch a lywiwyd gan Arfon Jones. Daethai'r gweinidogion yno o bell ac agos a dyrnaid bach o leygwyr yn unig a'u cefnogai. Wedi'r gwasanaeth darllenwyd datganiad cryf dros heddwch gan y Parchedig Guto ap Gwynfor a lofnodwyd gan y gweinidogion ar eu ffordd allan o'r capel.

Ymffurfiwyd yn ddau a dau gyda chroes ar y blaen a gorymdeithiwyd at y Swyddfa Gymreig i gyflwyno'r datganiad yno. Yna gorymdeithiwyd bob cam at glwydi'r Ffatri Ordnans Brenhinol yn Llanisien, a chynhaliwyd gwasanaeth eilwaith yno. Ymddangosodd ychydig o'r hanes ar S4C ac yn y Western Mail. Nid aeth y brotest dawel heb sylw.

# Y DINESYDD BACH

UN NOSON I FFWRDD O'R DRE

Roedd mor ddistaw a'r bedd ar noson dawel o Dachwedd. Roedd y pebyll yn siglo yn y gwynt fel petai nhw ar long yn y rhyfel byd. Roedden yn gwersylla uwch y môr ond roedd yn teimlo fy mod yn campio yn y gwagle. Ni chlywais yr un don yn dod i mewn i'r lan. Triais ddarllen llyfr o'r llyfrgell ond rhoddais y ffidil yn y to a chwmpais i gysgu heb siw na miw.

Breuddwydiais am y môr a'i donnau a'r ewyn yn lliwgar yn edrych fel pobol bach o ynysoedd estron. Edrychai y blodau fel blanced goch wedi gorchuddio cae. Rhedais nerth fy nhraed trwy'r caeau pell. Roedd y môr yn dawel fel llygoden ac roedd mor boeth â phopty. Ni hidiais am y slefran fôr a oedd yn dal i fod yn pigo traed pawb pan gerddo' chi heibio. Ar y mynyddoedd tyfai rhosod, roedd mwy o betalau ar rhain nag sy'n tyfu ym Mharc y Rhath.

Dyma'r lle gorau a welais erioed. Yna clywais sŵn car yn dod yn agosach. Agorais fy llygaid a gwelais fy mod ar fy ffordd gartre yn y car. Dyna ddydd da a gefais. Ond roedd gwell gen i freuddwyd y nos o lawer.

Branwen Roberts
(10 oed)

--------

Rhyfeddodau

Ymlwybrais yn araf drwy'r eira trwchus gan deimlo'r gwynt miniog yn chwipio yn erbyn fy wyneb. Doedd gen i ddim syniad o ba gyfeiriad ddes i nac i ba gyfeiriad roeddwn i'n mynd. Syllais drwy'r plu rhynllyd gan chwilio am gysgod oddi wrth yr anghenfil gwyn.

Yn sydyn fe welais dwmpath mawr o eira ac ar ôl ychydig o grafu fe welais mai coeden oedd yno. Fe benderfynais ddringo'r goeden i weld os oedd yna gysgod ymysg ei changhennau. Roedd fy mysedd bron â fferu ac felly roedd hi'n anodd dringo i frig y goeden. O'r diwedd ar ôl ymdrechu am hir, fe gyrhaeddais i'r brig.

Yn sydyn, llithrodd fy nhroed ar y rhisgl gwlyb ac fe syrthiais i lawr ac i lawr i dduwch y goeden ......

Roedd fy mhen yn troi a fy esgyrn i'n gwynegu. Meddyliais am funud ac yna sylweddolais fy mod i wedi syrthio i mewn i rhyw fyd arall. Byd o hud a lledrith. Roedd yna arwydd uwch fy mhen yn pwyntio at Gwm y Corachog, Pentre'r Pobl Pren, Tre'r Gwrachod a Gwlad Popeth o Chwith. Ar ôl pendroni penderfynais gerdded i gyfeiriad Cwm y Corachod.

Ymhen ychydig, fe ddes i ar draws camfa. Yn eistedd yn barchus ar y gamfa roedd yna ddyn bach blewog a het goch am ei ben. Roedd e'n gwisgo trowsus streipiog a chrys glas ac o gwmpas ei wddf roedd tei bow a smotiau melyn arno. Welais i erioed ddim byd tebyg iddo, dim ond y llyfrau tylwyth teg roedd mam yn eu darllen i mi ers talwm.

Gofynnais iddo os oeddwn yn agos i Gwm y Corachod. Atebodd yntau mai'r unig ffordd i'r Cwm oedd dros y gamfa. Ychwanegodd hefyd fod rhaid imi adrodd yr wyddor o'r diwedd hyd y dechrau wrth groesi'r gamfa.

Wedi imi ufuddhau i orchymun y corrach, cefais fy hun mewn gwlad hyfryd a chorachod o gwmpas y lle i gyd. O roedd yno le braf - arogl blodau amryliw, nant yn byrlymu ar ei thaith, adar yn canu'n y coed a'r haul yn gwenu'n braf ar yr holl liwiau.

Cefais groeso bendigedig yno er nad oedden nhw, medden nhw, wedi gweld neb yn debyg i fi o'r blaen. Erbyn hyn, roeddwn bron â llwgu eisiau bwyd. Wrth lwc aeth un o'r corachog a fi at fwrdd gwag a tharo ei gap ar y bwrdd. Llanwodd y bwrdd â phop math o fwydydd blasus o bob cwr o'r wlad. Ar ôl bodloni fy hun syrthiais i drwmgwsg a gwên fawr ar fy wyneb. Doeddwn i erioed wedi bod mor hapus nes i mi glywed llais cyfarwydd yn galw......."Nnn-i-i-i-a-a maen amser codi i fynd i'r ysgol!".

Nia Laugharne
(11 oed)

Y Carped Hud

Pe bai gen i garped hud, fe fyddwn i'n mynd i wlad yr ia i weld y pengwins doniol a'r eirth. Cyn i mi fynd mae'n rhaid dweud,

"O garped hud,
Mor lân a thwt"

Yna fe es i fel y gwynt i wlad yr ia. Gwelais ddeg pengwin a dwy arth fawr wen yn edrych ar ôl yr eirth bach. Roedd yr eirth bach mor fach nes doeddwn i ddim yn eu gweld nhw. Roeddent yn rowlio fan hyn a rowlio fan draw. Nawr mae'n rhaid mynd gartre at mam a dad a Meinwen, felly, hwyl fawr pengwins; Hwyl fawr eirth, a nôl a mi i Gymru fach.

Gwennan Ruddock
(8 oed)

----------

Y Wrach

Un tro mewn castell iasoer roedd gwrach yn byw. Roedd hi'n galw pethau cas fel "Hi hi. Rydw i eisiau cael y plant i gyd; Hi hi hi". Ac un diwrnod daeth Sian a Gidion a Tanwen ac Eleri a Juio i'r castell pan oedd y wrach mâs. Roedden nhw yn chwarae gêm pan yn sydyn daeth y wrach yn ôl. "Hi hi hi, rwyn gallu arogli Sian a Gidion." "Help!", gwaeddodd pawb. "Rwy wedi cael y plant nawr", meddyliodd. "O wir, rwy'n mynd i'w cael nhw i ginio; yr oll sydd raid wneud yw coginio'r plant". "O Help!" gwaeddodd pawb.

Yn sydyn roedd y drws wedi cloi a daeth anghenfil hyll iawn i mewn. Oeddwn i ddim yn gallu siarad ond dywedodd yr anghenfil ein bod ni yn y dwnjwn. Galwodd rhyw lais, "Ble mae'r plant?" "Lawr yn y dwnjwn". "O na, dydwi ddim ddigon cryf i gael y plant". Daeth mam Siân i mewn a gwaeddodd "Gadewch i'r plant fynd". "Na, na na, wna i ddim ond byddai'n rhoi ti yn y dwnjwn". "O iawn, te, iawn." "Dewch i'r dwnjwn", ond ni waeddodd "Help!" achos roedd hi'n gryf iawn ac roedd hi'n

ì TUD 13

## ar garlam gyda —

# CEFFYL PREN

Bydd dilynwyr brwd y byd pop Cymraeg yn cofio'r hafau hirfelyn tesog hynny pan oedd y Trwynau Coch yn Chwythu Drwy Gymru ac Ail Symudiad yn Symud Drwy yr Haf. Eleni y Ceffyl Pren sydd Ar Garlam drwy'r haf, ond welwch chi mohonyn nhw ym Mhlas Coch na Blaendyffryn na hyd yn oed yng Nghanolfan yr Urdd yn Heol Conwy. Carlamu drwy Ogledd America mae'r Ceffyl Pren - o Niagra Falls i Washington D.C. - ar y daith mwyaf uchelgeisiol erioed gan grŵp pop Cymraeg. Ond cyn dilyn camrau'r ceffyl beth am ychydig o'i hanes.

Mae'r pedwar aelod yn byw ac yn gweithio yng Nghaerdydd ac mae tri ohonynt wedi eu geni a'u magu yn y brifddinas. Yr eithriad yw Gareth Williams, o Abergele yn wreiddiol, ond yn gweithio yn y BBC erbyn hyn. Mae Tim Lewis o Lysfaen wedi meistroli'r Gymraeg ac mae Pete Sawyer a Keith Stuart wrthi'n dysgu yn ddyfal. Nodwedd amlycaf y grŵp yw eu bod yn benderfynol o ganu yn y Gymraeg yn unig - nid Cymry di-Gymraeg yn cymryd mantais ar y byd roc Cymraeg mo'r Ceffyl Pren.

### Siom yn y Gogledd

Ond er mai yn y Gymraeg yn unig mae'r grŵp yn canu mae nhw wedi cael eu siomi'n fawr gan ymateb trefnwyr dawnsfeydd Cymru, ac yn enwedig trefnwyr dawns yn y Gogledd. Brwydr barhaol fu ceisio torri trwodd a denu cynulleidfa yn y Gogledd, ac mae'r diffyg brwdfrydedd a'r rhagfarn yn erbyn grwpiau'r brifddinas wedi eu suro a'u diflasu nhw. Dyma pam mae nhw wedi troi eu golygon tuag at yr Unol Daleithiau a Chanada - chwant lledaenu eu gorwelion a "chario efengyl roc Cymraeg ar draws y byd".

### Nawdd gan Ddiwydiant

Ond nid ar chwarae bach mae codi pac a bwrw draw i gyfandir arall ar daith roc - mae digon o broblemau wrth anelu am y Dicsiland yn y Rhyl! Yr ateb oedd chwilio am nawdd o fyd diwydiant. Byddai'r daith yn costio £4,500 iddyn nhw ond bydd rhywfaint o'r gost yn cael ei dalu gan gwmniau fel "Picato Strings" (yr hen General Music Strings yn Nhrefforest), Marks and Spencer a hyd yn oed y Cyngor Prydeinig.

### Llundain

Ond cyn hedfan ar draws yr Iwerydd ar y 15fed o Orffennaf mae 'na ddiwrnod pwysig arall o'u blaenau. Ar fore'r ail o Orffennaf, bydd y Ceffyl Pren yn canu yng Ngŵyl 'Pesda Roc ym Methesda. Ond yna bydd rhaid gwibio lawr i Lundain i gymryd rhan mewn cystadleuaeth a allai olygu'r "big break" iddyn nhw. Y Ceffyl Pren ennillodd rownd derfynol cystadleuaeth grwpiau roc Clybiau Bechgyn De Cymru a'r wobr oedd cymryd rhan yn y rownd derfynol ym Mhrydain gyda phymtheg o grwpiau eraill. Bydd y gystadleuaeth yn cael ei darlledu gan Channel Four UK a rhwydwaith CBS America ac yn derbyn cefnogaeth cwmni recordiau Polydor. Wrth gwrs, dim ond caneuon Cymraeg fydd y grŵp yn canu.

### Proffesiynol

Y bwriad yn y pendraw yw troi yn hollol broffesiynol. Does dim un grŵp roc arall wedi llwyddo i ennill bywoliaeth trwy ganu yn y Gymraeg yn unig ond mae'r hyder a'r uchelgais yn amlwg yn y Ceffyl Pren. Pob lwc i'r marchogion wrth garlamu i'r dyfodol.

Bydd y Ceffyl Pren yn canu yn Eisteddfod Llangefni, ar y nos Iau yn Twrw Tanllyd.




# CEFFYLAU BLAEN

Llongyfarchiadau cynnes i Cen Williams ar ennill Gradd B.Ed. (Anrhydedd, Dosbarth 1af), a hynny yng nghanol yr holl weithgarwch arall y mae Cen yn gysylltiedig ag ef. Ar hyn o bryd y mae'n athro yn Ysgol Greenhill, Rhiwbeina.

---

Guto Harri a Rhian Goodfellow fydd Prif Swyddogion Ysgol Llanhari y flwyddyn nesaf. Rydym yn eu llongyfarch ac yn dymuno'n dda iddynt. Bydd y flwyddyn nesaf yn arbennig iawn oherwydd dyma'r flwyddyn olaf wrth gwrs y bydd plant o Gaerdydd yn ddisgyblion yn Llanhari a'r cysylltiad pwysig a gwerthfawr yna bellach yn dod i ben.

---

Llongyfarchiadau i Guto Wynn Jones, 16 oed, mab Mrs. Indeg Wynn Jones, Parc y Rhath, ar ennill y wobr gyntaf mewn cystadleuaeth ffotograffi i rai dan 18 a drefnwyd gan ITV. Cyflwynwyd y wobr - camera Olympus XL gan Patrick Lichfield, ffotograffydd enwog a chefnder y frenhines, a theledwyd y cyfan.

# CEFFYLAU PREN!

Daeth llun o dîm peldroed Tŷ'r Cymry yn rhifyn mis Mehefin a llu o atgofion yn ôl i mi fel un a fu'n gyfrifol am sefydlu'r tîm a'i redeg am nifer o dymhorau.

Ar ddechrau'r pum degau roedd cymdeithas Tŷ'r Cymry yn gymdeithas weithgar a llewyrchus a'r lle dan ei sang tair a phedair gwaith yr wythnos.

Roedd yn gyfnod pryd y bu dylifiad cryf o bobl ifainc o bob cwr o Gymru i weithio yn y ddinas a chyda phrinder arian yn cyfyngu rhyw ychydig ar ein gweithgareddau fin nos, sicrhawyd yn Nhŷ'r Cymry gymdeithas gyfeillgar a gweithgar a gwrddai yn rheolaidd ar nosweithiau Sul, Mawrth, Iau a Sadwrn.

Tarddodd y tîm peldroed yn ystod y cyfnod llewyrchus hwn ac ar ôl chwarae gemau tu allan i'r gynghrair am ddau dymor, mentrwyd ymuno â 'Cardiff Combination League Div. 3' yn 1953 a chwarae am nifer o dymhorau gyda mesur sylweddol o lwyddiant a llawer iawn o hwyl.

Ar ddechrau'r chwe degau bu'n rhaid ffarwelio a'r gyngrhair gan i nifer o chwaraewyr erbyn hynny raddio i ystad o fywyd priodasol a dechrau ymgymryd â chyfrifoldebau eraill ar brynhawn Sadwrn.

Diddorol cofnodi i mi orfod ymddangos o flaen swyddogion y gyngrhair yn 1956 gan i ryw dwpsyn o reffari gwyno ein bod yn achub mantais annheg drwy weiddi ar ein gilydd yn Gymraeg mewn gêm gwpan ar barc Trelai ond chwarae teg roeddynt yn credu fod chwarae peldroed "through the medium of Welsh" yn "novel idea!"



Er gwybodaeth dyma enwau y rhai a ymddengys yn y llun:

Rhes gefn o'r chwith i'r dde:

Rolant Williams
Stan o. Jones
Dafydd Huws
Aled Jones
Eifion Jones
Lewis Thomas

Rhes flaen o'r chwith i'r dde:

Idwal Hughes
Gwyn Jones
Lloyd Evans
Eurig Evans
Cecil Davies

H.Lloyd Evans
Llandaf.

# CWRS CARLAM!



Mae John Albert Evans, Llysfaen, a threfnydd iaith Morgannwg Ganol yn mynd i Minneapolis i gynnal dosbarthiadau Cymraeg. Bu John lawer tro o'r blaen yn gwneud y gwaith hwn yng ngogledd America ac mae'n cael hwyl fawr ar y gwaith.

-----

O TUD. 11

gallu tynnu bariau'r dwnjwn. "Hwre", sibrydiodd y plant, "mae mam Sian yn dod ac mae hi yn gryf ac mae hi'n gallu agor bariau'r dwnjwn". A daeth Joyce i lawr o'r llofft ac i'r dwnjwn ond doedd y wrach ddim yn gwybod bod hi'n gallu gwneud swyn. Ond pan agorodd Joyce y drws rhedodd pawb allan yn gweiddi "Hwre, rydyn ni wedi dod mâs o'r hen ddwnjwn yna, Hwre, Hwre! nawr, un, dau, tri, i ffwrdd â ni i'n tai. Dywedodd mam Sian "Mae bwyd ar y bwrdd i chi i gyd". "O diolch i ti; maen hen bryd i chi fynd adre i gael te". Cawsom ni gacennau a jeli a phwdin reis a phethau neis. Ar ôl hanner awr gorffennais y bwyd a dywedodd y plant "Diolch yn fawr". Roeddwn i'n cysgu gyda Sian Beddis dros nos. Roedd Sian yn byw ar bwys y castell iasoer. Doeddwn i ddim yn ofnus achos mae ei mam yn gryf iawn ac mae'n hi'n gallu gwneud popeth, ond gall hi ddim cario Sian sy'n pwyso naw cant tons ac mae'n hi'n gryf. Un diwrnod aethon ni i'r castell iasoer a gweiddi "Unrhyw un i mewn"? Ond roedd rhuwun i mewn, gallwch ddyfalu, y wrach. "Pwy sy' 'na?" gwaeddodd yn gryf, "Pwy sy' 'na?" "Sian a Rosa", gwaeddais. "O ie, a Joyce mam Sian a Kathrin Morus". "O rwy'n mynd i'ch bwyta i ginio". "O na", gwaeddais, yn esgus bod yn ofnus. O'r diwedd ar ôl inni gael squash aethon i'r gwely.

Rosa Martin
(6 oed)

# PORFEYDD BRASACH

Beth sy'n denu Cymry Cymraeg i Highfields, Llandaf? Ddechrau'r flwyddyn ymunodd Colin Morgan â'r garfan Gymraeg yno. Mae Colin ar staff y Brifysgol Agored ac yn aelod o'r Clwb Cadw'n Heini. Cyn diwedd yr haf bydd dau deulu arall yn ymuno ag ef yn Highfields.

-----

TAIR COMEDI FER (Cwmni Theatr Cymru yn Theatr y Sherman)

--------

Noson o chwerthin hanes-yddol oedd y difyrwch diweddaraf i ddod ar daith gan Gwmni Theatr Cymru. Tair comedi o ddauddegau, tridegau a phedwardegau'r ganrif hon - oes aur y ddrama festri, pan oedd y capeli eu hunain eisoes yn colli eu hapêl a'r swyn wedi symud i'r atyniadau ymylol.

Roedd ôl yr atyniadau ymylol hynny yn gryf ar ddwy o'r dramâu hyn, sef Y PWYLLGOR (gan D.T. Davies) a Y PRACTIS (gan Layshon Williams). Roedd ynddynt ddarlun cysurus ac arwynebol o gymdeithas weithiol, drefol Gymreig. Gwnaeth y cynhyrchiad hwn yn dda i ganolbwyntio ar yr elfennau hynny, gan gadw'r dafodiaith a chadw'n driw i naws y dramâu. Roedd y setiau hefyd yn ddiharhebol o gyfarwydd fel setiau dramâu cegin. Ond roedd darlun mawr a chyfrwys o gapeli yn gysgod dros y cyfan, rhag ofn i neb gredu fod â wnelo'r dramâu hyn ddim oll â ni heddiw. Ni ddefnyddiwyd fawr ddim ar oleuadau a thechnegau cyfoes eraill. Llefarwyd y sgriptiau gwreiddiol, hyd yn oed lle roedd hynny'n golygu arfer ffurfiau a swniai'n chwithig iawn i glust fodern. Penderfyniad dewr a doeth.

Diau fod yma atsain o ugeiniau o berfformiadau blaenorol a da hynny, oherwydd yn y rhamantu hwnnw yr oedd llawer o swyn y tair drama. Talwyd teyrnged i'w hamaturiaeth, heb fod yn nawddoglyd.

Roedd yr un peth yn wir gyda'r actio. Defnyddiwyd y saith actor ifanc sy'n gnewyllyn i'r cwmni i chwarae'r tair drama. Rhaid oedd iddynt actio i lawr i fod yn llanciau ifanc ac i fyny i fod yn bobl ganol oed. Yn union fel fydd yn digwydd mewn cwmni amatur. Nid fod dim yn amaturaidd yn y cyflwyniad a gafwyd. Gwnaed ymdrech lew i roi lliw ar bob cymeriad. Perfformiadau mwyaf cofiadwy'r noson oedd Rhian Morgan fel Mari yn Y PWYLLGOR ac Alun ap Brinley, yn cael hwyl amlwg yn campio ei ffordd trwy'r PRACTIS. Dylid nodi enw Richard Elfyn hefyd. Ymddangosodd ef ym mhob un o'r tair drama ond ni sylweddolais hynny tan edrych eilwaith ar y rhaglen. Cryn orchest.

Yr anoddaf o'r dair oedd JOHN HUWS DRWS NESA (gan Cynan). Ar un ystyr hon oedd y lleiaf llwyddiannus, eto hon hefyd oedd y mwyaf uchelgeisiol fel drama. Roedd yma fwy o dechneg theatrig yn un peth - y ffordd y personolwyd y cloc i fod yn bedwerydd cymeriad, y tensiynau gwahanol rhwng y tri arall ac ati. Yr oedd drama gwirioneddol dda ar fin torri trwodd yma. Ond ysywaith, ni ddaeth. A dirywiodd y berl drist-ddoniol bosib yn naifrwydd braidd yn boenus.

Clywsom lawer am yr oes aur hon ym myd y ddrama Gymraeg. Roedd y diwyd-rwydd a'r brwdfrydedd yn sicr yn bethau i ryfeddu atynt ac i hiraethu ar eu hôl. (Beth ddigwyddodd i Gwmni Di-enw Caerdydd, er enghraifft?) Ond tybed na wnaeth poblogrwydd dramâu fel y rhain lawer o ddrwg yn ogystal, gan roi chwaeth beirniadol cynulleidfaoedd Cymraeg yn y dosbarth ôl-gynnydd.

Mae'n ymddangos na oddefid trafod yr ymwneud mwyaf sylfaenol rhwng personau â'i gilydd ond yn y modd mwyaf arwynebol. Mae perygl ein bod yn dal i fwyta ffrwyth yr anaeddfedrwydd hwn.

Serch hyn i gyd, gwnaeth Cwmni Theatr Cymru gymwynas fawr trwy atgyfodi'r cyfnod hwn a thrwy bwys-leisio mai talp o hanes a gyflwynent. Da oedd gweld cynifer yn y Sherman yn chwerthin ar noson o haf. Hwn yw'r unig gwmni proffesiynol Cymraeg i ymweld â'r brifddinas yn rheolaidd nawr a braf ei groesawu bob amser.

Aled Islwyn

# ETHOL SWYDDOGION

Yng nghyfarfod olaf Clwb Cinio'r Merched eleni etholwyd swyddogion newydd. Kit Boobier fydd yn cymryd lle Heulwen Jones fel Llywydd. Mae Doreen Thomas wedi cytuno aros ymlaen fel Ysgrifenyddes gyda Rhiannon Gregory i'w chynorthwyo yn lle Mari Price. Mae Hazel Doul wedi rhoi'r gorau i fod yn Drysoryddes a Meudwen Davies wedi cytuno i ymgymryd â'r gwaith. Mae'r merched yn cwrdd ar ail nos Iau bob mis am 7.30 yng Ngwesty Thatchers yn Llanishen. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fedi 8 a bu'r swyddogion wrthi'n barod yn paratoi'r rhaglen.

-----


HTV

## Ymchwilydd - Rhaglenni Ysgafn

Mae angen Ymchwilydd ar HTV Cymru i weithio ar raglenni adloniant ysgafn, comediau sefyllfa, rhaglenni cerdd, a rhag-lenni plant. Dylai'r ymgeiswyr fod a phrofiad, neu o leiaf didd-ordeb byw, yn y mathau yma o raglenni, ac yn barod i ymuno a thim bywiog a gweithgar yn sefydlog yng Nghaerdydd.

Cyflog (o dan hyfforddiant):- £5,769 y flwyddyn.

Y swydd i gydymffurfio a'r cytundeb rhwng y cwmni ag undeb ACTT.

**Dylai ymgeiswyr ysgrifennu am ffurfleb gais at: Y Rheolwr Personnel, HTV Cyfyngedig, Y Ganolfan Deledu, Caerdydd CF1 9XL. (Cyfeiriad DI/242).**

RHYDD HTV GYFLE CYFARTAL I BAWB

# Y SILFF LYFRAU

Robyn Lewis, GEFYNNAU TRADDODIAD, Gwasg Tŷ ar y Graig, £1.25

--------

Mewn wyth ysgrif, llwyddodd Robyn Lewis i roi darlun hynod o fyw, diddorol, cryno a chywir o farnwyr Llys y Goron, y creaduriaid hynny yr addefir, yn swyddogol beth bynnag, barchedig ofn iddynt ond sydd, mewn gwirionedd, yn wrthrychau chwilfrydedd cyffredinol ac ofnadwyaeth neilltuol. Nid heb reswm y'u disgrifir fel gwŷr mewn gefynnau: er gwaethaf eu galluoedd arswydus, mae cymaint o bethau na allant, o ran confensiwn a deddf gwlad, eu gwneud.

Pwy well na Mr. Lewis i agor y llen? Gwnaeth hynny yn gynnil a medrus gan ychwanegu at ein dyled i un a wnaeth gymaint eisoes i drafodaeth yn Gymraeg ar bynciau cyfreithiol.

Gwnâi'r llyfryn hwn werslyfr campus i gylch trafod neu ddosbarth allanol a dylai pob ynad a chyfreithiwr o Gymro ei ddarllen. Mae ynddo ambell stori dda ond, yn anad dim, y mae ynddo sylwadau treiddgar, pigog weithiau, y talai i bawb ohonom fyfyrio arnynt.

Goddefer imi grybwyll dau ohonynt o'r bennod sy'n dwyn y teitl "y....... duwiau mawr"

Dyma sydd gan Mr. Lewis i'w ddweud am y trai ar grefydd:

'... nid oes neb a ddadleuai mai llesol i Gymru yw iddi fod, bellach, yn wlad o gapeli gweigion ar y Sul. Mae rhywbeth gwerthfawr wedi'i golli a daeth gwareiddiad ein gwlad yn dlotach a gwannach o'r herwydd'.

Ni all neb sy'n eistedd mewn llys barn o ddydd i ddydd lai na sylwi fod cyfnod y trai ar grefydd yng Nghymru wedi rhagflaenu ac yn dal i gydredeg â'r cynnydd syfrdanol mewn tor-priodas a throseddau difrifol yn ystod y chwarter canrif diwethaf.

A'r ail ddyfyniad:

"Mae'n loes gweld carfan o'n cyd-Gymry yn magu agwedd afiach tuag at y gyfraith, hynny yw, at y Gyfraith yn ei chyfangorff. Dichon y gall effaith yr amarch hwn arwain at ddibrisio a gwanychu'r unig fframwaith a feddwn i'n hamddiffyn rhag anrhefn ddireolaeth lwyr: serch mor amlwg wallus ac amherffaith yw'r fframwaith ar brydiau".

Geiriau di-dderbyn-wyneb ond cytbwys ac nid unochrog gan i'r awdur fynegi yr un mor groyw ei amheuaeth gref fod cymhellion gwleidyddol y tu cefn i ambell benderfyniad gan yr awdurdodau (nid y llysoedd) i ddefnyddio prosesau'r gyfraith.

Dyma gyfrol sy'n werth llawer mwy na'i phris.

Dewi Watkin Powell.

---

Lyn Evans, PORTRAIT OF A PIONEER, Christopher Davies, £6.95.*

--------

Cyfeiria teitl y llyfr darllenadwy hwn at Howell T. Evans, un a ysgrifennodd yn helaeth ar hanes Cymru mewn cyfnod pan oedd hi'n anarferol ac amhoblogaidd i wneud hynny, sef o ddechrau'r ganrif hyd at ddiwedd yr Ail Ryfel Byd. Ceir darlun o fywyd cynnar Mr. Evans yng Nghwm Tawe ac yna o'i yrfa addysgol yn Aberystwyth a Chaergrawnt. Drwy gydol y cyfnod hwn mae cyfeiriadau at ei berthynas â Gwenllian Howells - neu Mrs. Evans, wedi iddo adael y coleg.

Ynghlwm wrth y penodau personol mae disgrifiadau diddorol dros ben o'r gymdeithas a'r diwylliant Cymreig mewn rhannau o'r wlad o ddiwedd y ganrif ddiwethaf hyd at 1950. Rhoddir sylw arbennig i'w swydd gyntaf yng Nghaerfyrddin, yna yng Nghaerdydd ac yn olaf fel prifathro'r Ysgol Sir yn Aberaeron. Drwy gydol y blynyddoedd hyn aeth Mr. Evans ati i ysgrifennu am 'Young Wales', ac amryw o lyfrau ar hanes Cymru a Phrydain. Cafodd y gyfrol gyntaf, 'An Analysis of the History of Wales' groeso cynnes ar y cyfan, gan y wasg yn Ne Cymru ac Owen Edwards y Prif Arolygwr Ysgolion, ond fe'i beirniadwyd gan eraill am yr un rhesymau ag a glywir heddiw gan wrthwynebwyr Hanes Cymru yn ein hysgolion.

Dyma lyfr sydd yn gyfraniad pwysig i'n llyfryddiaeth ar hanes Cymru yn arbennig i'r rhai ohonoch sy'n ymddiddori yn y gyfundrefn addysg.

*Ar gael gan yr awdur am £5.00 yn unig.

Geraint Lewis Jones.

---

Stokes Day (cyf. Heini Gruffydd) DYFROEDD DIEFLIG Y Lolfa, £2.45

--------

Mae teitl da i'r nofel hon. Bydd dŵr tap cyffredin, os bydd cynllwyn criw o eithafwyr yn methu, yn troi yn gwbl ddieflig. Bwriad y criw, wrth herwgipio lori sy'n cludo deunydd ymbelydrol o Drawsfynydd i Loegr, yw defnyddio'r llwyth fel erfyn i flacmelio'r Llywodraeth. Ond ymddengys y bydd y ddwy ochr yn methu ac y rhyddheir y deunydd ymbelydrol i afonydd a chronfeydd dŵr y wlad.


Gŵyr yr awdur sut i gyfleu arswyd. Cawn ddarlun credadwy, er enghraifft, o ddyn yn gorfod gweithredu'n dreisgar yn erbyn ei ewyllys. Mae'r manylion technegol, rhai ohonynt yn iasoer, yn argyhoeddi. A llwyddir i ddangos y gwrthdaro rhwng pobl o wahanol gefndir - yr heddlu yn erbyn y fyddin, y swyddogion Seisnig yn erbyn y werin Gymreig.

Mae cyfieithiad Heini Gruffydd yn drawiadol o naturiol ar y cyfan a'r nofel ar ei hyd yn ddarllenadwy ac eithrio'r bennod 'Ymateb ar y Cyd'.

Diolch i'r Lolfa am geisio llenwi bwlch amlwg yn ein deunydd darllen.

Philip Wyn Jones.


# Y CROESAIR ~ Ap Lewsyn RHIF 34



Ar Draws:

1. Aderyn blasus sy'n swnio'n amheus, yn enwedig yn y Deheubarth (8)
5. Y wlad i'r gogledd i'r pedwar-deg-nawfed lledred (6)
10. Wrth gyffroi yr aer i ddwsin, gwneir yr awyrgylch yn fwy tymherus. (9)
11. a 6. i lawr. Hepgorol. (2-3-6)
12. Ôl cudd ar goll ym mherfeddion y geiriadur (5)
13. Byddai yn canu clodydd yr ymadawedig. (9)
14. Doed y criwr cynhyrfus i gyhoeddi y gwnaed tâp o'r digwyddiad. (10)
17. Arhosfan? (4)
19. Hen daeog. (4)
20. Nid ar ei bai anniben y craffai ef pan gloriannai. (10)
22. Ymgyflwynaist i ddiben. (9)
24. Y bardd a'r prydydd hir. (5)
26. Stordy. (5)
27. Nid oes culni yn natur hwn. (9)
28. Y ddinas na fynnai Jona fynd iddi. (6)

I Lawr:

1. 

(4,6,2,3)

2. Un o helbulon bywyd, neu'r cyfan ohonynt. (5)
3. Cymoni tipyn ar erddi da i'r diben o ddwyn ffresni glas. (8)
4. Mae'n perthyn i ni. (5)
6. Gweler 11 ar draws.
7. "Tafodtrwm" oedd disgrifiad Moses o'i ddiffyg. (Ecsodus 1V) (4,5)
8. Codwyr canu o blith yr Hwntws. (11,1,3)
9. Effaith dryg ar ŵr mewn gwewyr yw bywyd y nomad. (2,6)
15. Yn cyrraedd "safle'r gerbydres" (chwedl Ceiriog) yn rhy hwyr. (4'1,4)
16. Ffydd yr Israeliaid (8)
18. Pellhau heb symud wrth deithio i'r anhrefn. (8)
21. Rwyf am gymhwyso craidd y cyrsiau gradd a safonau'r chweched dosbarth. (6)
23. Ffawd yr hustyng edmygus. (5)
25. Dyma ferch a fedrai mewn gwirionedd arwyddo'i henw â chroes (X). (5)

----------

DATRYSIAD RHIF 33

Ar Draws:
1. TROEON YR YRFA; 8. ODDITANI; 9. GWANCUS; 11. EDRYCHEM; 12. LLWYDREW; 13. HYDER; 14. YMFFLAMYCHU; 16. FFROENUCHEL; 19. POSIB; 21. RWSIAID; 23. NEIDIWR; 24. I'R AFAEL; 25. BEIDDIAI; 26. TRAWSGLUDIAD.

I Lawr:
1. TEIGROD; 2. O GARCHAR; 3. ODDIAMGYLCH; 4. YSGALL; 5. YMAWYDDA; 6. FICERDY; 7. COLEG HYFFORDDI; 10. SAWRU'N BERAIDD; 15. FFOLINEBAU; 17. OES GAFR; 18. NI ALL ALW; 19. PEIDIAI; 20. SEILIAD; 22. DILOG.

Y GYSTADLEUAETH (Rhif 33)

Yr ateb cywir cyntaf i gyrraedd oedd eiddo:
MAIR ELVET THOMAS,
26, Plasturton Gardens,
Canton.
Mae tocyn llyfrau Cymraeg gwerth £5 ar ei ffordd iddi.

Cafwyd atebion cywir hefyd oddi wrth: M. Davies, Llandaf; "Shan", Cyncoed; Llinos Angharad, Yr Eglwysnewydd; J.R. Trelai; Dulais Rhys, Pontcanna; a T. Jones, Yr Eglwysnewydd.
Daeth atebion cywir, oddigerth un llythyren oddi wrth Huw Aled Jones, Pantmawr a Beryl Hall, Cyncoed.

---

CYSTADLEUAETH RHIF 34

Cynigir tocyn llyfrau Cymraeg am £5 bob mis o hyn allan. Byddwn yn newid ychydig ar y drefn y mis hwn. Bydd pob datrysiad cywir a dderbynnir erbyn diwedd Gorffennaf yn mynd i'r het ac yna bydd aelod o'r Pwyllgor yn tynnu un i benderfynu enillydd y mis. Cyhoeddir y canlyniad yn rhifyn Medi, ond bydd y buddugol wedi clywed yn ystod Awst.
Ysgrifennwch eich enw (neu ffugenw os mynnwch) a'ch cyfeiriad ar ymyl y Croesair uwchben y teitl. Torrwch allan a'i gyfeirio at Ap Lewsyn, 13, Rannoch Drive, Cyncoed.

---------



Argraffwyd gan Fingerprints(TU), Caerdydd. FP.310